

Y Gwasanaeth Ymchwil | Research Service

Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad Cofrestrau Lobio: Iwerddon a Senedd Ewrop

Briff Ymchwil

Mae'r papur hwn yn cynnwys gwybodaeth gefndirol ar sut mae'r cofrestrau o lobïwyr yn gweithio yn Iwerddon a Senedd Ewrop. Gofynnwyd am y papur briffio hwn yn dilyn sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor â Chofrestrydd Cofrestr y Lobïwyr Ymgynghorol y DU (Alison Joy White) a Chofrestrydd Lobïo yr Alban (Billy McLaren).

Iwerddon

Ym mis Mawrth 2015, cafodd [Deddf Rheoleiddio Lobïo 2015](#) (y Ddeddf) ei llofnodi yn gyfraith gan Arlywydd Iwerddon. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer: sefydlu cofrestr o bersonau sy'n gwneud gweithgareddau lobïo; cod ymddygiad i wneud gweithgareddau lobïo; a chyfyngiadau ar rai cyn-swyddogion cyhoeddus dynodedig i gymryd rhan mewn lobïo.

Gweinyddu'r gofrestr

Caiff y [Gofrestr Lobïo](#) ei gweinyddu a'i chynnal gan y [Comisiwn Safonau mewn Swyddi Cyhoeddus](#), corff annibynnol o dan gadeiryddiaeth cyn farnwr yr Uchel Lys. Rôl y Comisiwn yw: gweithredu fel Cofrestrydd ar gyfer Lobïo; datblygu a goruchwyllo'r gofrestr gyhoeddus ar y we; delio â materion ar gyfer penderfynu; gweithredu'r cod ymddygiad; darparu canllawiau a hyrwyddo dealltwriaeth o'r system; ymarfer pwerau i ymchwilio; cyhoeddi hysbysiadau talu sefydlog ar gyfer mân achosion o ddiffyg cydymffurfio; gwneud darpariaeth ar gyfer troseddau ar gyfer achosion arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio; a darparu Adroddiad Blynyddol i'r Oireachtas.

Sefydliadau sydd angen cofrestru

Mae'n rhaid i sefydliadau gofrestru os ydynt yn gwneud gweithgareddau lobïo. Pennir hyn drwy ganfod: a yw'r sefydliad yn cyfathrebu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gyda "Swyddog Cyhoeddus Dynodedig" ynghylch "mater perthnasol" ac a yw'r sefydliad yn un o'r canlynol:

¹ Heblaw am fater penodol sydd wedi'i eithrio.

- Trydydd parti sy'n cael ei dalu am gyfathrebu ar ran cleient (lle mae'r cleient yn gyflogwr o fwy na 10 cyflogai llawn amser neu'n gorff cynrychioliadol neu'n gorff eirioli sydd ag o leiaf un cyflogai llawn amser);
- Cyflogwr sydd â mwy na 10 cyflogai lle gwneir y gwaith cyfathrebu ar ei ran;
- Corff cynrychioliadol gydag o leiaf un cyflogai yn cyfathrebu ar ran ei aelodau a bod y cyfathrebu yn cael ei wneud gan gyflogai a delir neu ddeiliaid swydd sy'n rhan o'r corff;
- Corff eirioli gydag o leiaf un cyflogai sy'n bodoli'n bennaf i ymdrin â materion penodol a bod cyflogai cyflogedig neu ddeiliad swydd yn y corff yn cyfathrebu ar faterion o'r fath;
- Unrhyw berson sy'n cyfathrebu ynghylch datblygu neu barthau tir.

At ddibenion y Ddeddf, rhestrir Swyddogion Cyhoeddus Dynodedig fel a ganlyn: Gweinidogion a Gweinidogion Gwladol; TDs (Teachta Dála) a Seneddwyr; ASEau ar gyfer etholaethau; Aelodau o Awdurdodau Lleol; Cynghorwyr Arbennig; Ysgrifenyddion Cyffredin ac Ysgrifenyddion Cynorthwyol yn y Gwasanaeth Sifil; a Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau mewn Awdurdodau Lleol

“Mater perthnasol” yw un sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Cychwyn, datblygu neu addasu unrhyw bolisi cyhoeddus neu unrhyw raglen gyhoeddus;
- Paratoi neu ddiwygio unrhyw gyfraith (gan gynnwys is-ddeddfwriaeth fel offerynnau statudol ac is-ddeddfau); neu
- Dyfarnu unrhyw grant, benthyciad neu gymorth, contract neu gytundeb ariannol arall, neu unrhyw drwydded neu awdurdod arall yn ymwneud ag arian cyhoeddus².

Mae nifer o “gyfathrebu wedi'u heithrio neu esemptio” nad ydynt yn cael eu hystyried yn weithgareddau llobio:

- Materion preifat: Cyfathrebu gan neu ar ran unigolyn sy'n ymwneud â'i faterion preifat ei hun ynghylch unrhyw fater heblaw am ddatblygiad neu barthau unrhyw dir heblaw am brif breswylfa preifat yr unigolyn;
- Cysylltiadau diplomyddol: Cyfathrebu gan neu ar ran gwlad neu diriogaeth dramor, yr Undeb Ewropeidd, y Cenhedloedd Unedig neu sefydliadau rhynglywodraethol rhyngwladol eraill;
- Gwybodaeth ffeithiol: Cyfathrebu sy'n gofyn am wybodaeth ffeithiol neu'n darparu gwybodaeth ffeithiol mewn ymateb i gais am y wybodaeth;
- Cyflwyniadau wedi'u cyhoeddi: Cais cyfathrebu gan gorff gwasanaeth cyhoeddus ac wedi'i gyhoeddi ganddo;

² Heblaw am weithredu unrhyw bolisi, rhaglen, deddfiad neu ddyfarniad o'r fath neu unrhyw fater o natur dechnegol yn unig.

- Trafodaethau undeb llafur: Cyfathrebu sy'n ffurfio rhan neu'n ymwneud yn uniongyrchol â thrafodaethau ar delerau ac amodau cyflogaeth a wnaed gan gynrychiolwyr undeb llafur ar ran ei haelodau;
- Diogelwch: Cyfathrebu datgeliad a allai fod yn fygythiad i ddiogelwch unrhyw berson neu ddiogelwch y Wladwriaeth;
- Pwyllgorau Oireachtas: Cyfathrebu a wneir yn nhrefodion pwyllgor naill Dŷ'r Oireachtas;
- Cyfathrebu gan Swyddogion Cyhoeddus Dynodedig neu weision cyhoeddus: Cyfathrebu gan swyddog cyhoeddus dynodedig yn rhinwedd ei swydd; cyfathrebu gan weision cyhoeddus (neu'r rhai sy'n rhan o gontract gan gorff gwasanaeth cyhoeddus) a wnaed yn y swydd honno ac yn ymwneud â swyddogaethau'r corff gwasanaeth cyhoeddus;
- Llywodraethu Cyrff Gwladwriaeth Masnachol: Cyfathrebu gan neu ar ran corff gwladwriaeth masnachol i Weinidog sy'n dal cyfranddaliadau mewn, neu sydd â swyddogaethau statudol yn ymwneud â, y corff, neu'r swyddogion cyhoeddus dynodedig sy'n gwasanaethu yn adran y Gweinidog, ac a wneir yn nhrefn arferol busnes y corff;
- Gweithgorau polisi: Cyfathrebu rhwng aelodau o gorff perthnasol a benodwyd gan Weinidog, neu gan gorff gwasanaeth cyhoeddus, at ddibenion adolygu, asesu neu ddadansoddi unrhyw fater o bolisi cyhoeddus gyda'r bwriad o adrodd i'r Gweinidog neu'r corff gwasanaeth cyhoeddus ar hynny.

Y Gofrestr

Mae'r gofrestr lobïo yn gofrestr gwybodaeth gyhoeddus ar y we. Ni chodir tâl i sefydliadau/unigolion gofrestru. Ar adeg ysgrifennu, mae 1,620 o sefydliadau/unigolion wedi [cofrestru](#). Mae angen i gofrestryddion ddarparu'r wybodaeth ganlynol ar y gofrestr:

- Enw'r sefydliad;
- Cyfeiriad a manylion cyswllt y busnes;
- Prif weithgareddau'r busnes ;
- Enw'r person sydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros lobïo;
- Rhif Swyddfa Cofrestru'r Cwmni/Rhif Cofrestru'r Elusen.

Mae gofyn i gofrestryddion lenwi 'ffurflenni' i gofnodi'r gweithgareddau lobïo. Mae tri chlyfnod ffurflenni y flwyddyn gyda dyddiadau cau penodol (1 Medi – 31 Rhagfyr): dychwelyd ffurflenni erbyn 21 Ionawr / 1 Ionawr – 30 Ebrill: dychwelyd ffurflenni erbyn 21 Mai / 1 Mai – 31 Awst: dychwelyd ffurflenni erbyn 21 Medi). Rhaid i bob ffurflen gynnwys gwybodaeth am bwy gafodd ei lobïo; mater pwnc y lobïo a'r canlyniadau a fwriadwyd; math a graddau'r gweithgaredd; enw unrhyw berson yn y sefydliad sydd neu oedd y swyddog dynodedig ac a wnaeth y gweithgareddau lobïo; gwybodaeth am y cleient (os yn berthnasol).

Torri rheolau a sancsiynau

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf yn ymdrin â thorri rheolau a gorfodi. Mae sawl achos o dorri rheolau:

- Lobïo heb gofrestru;
- Methu â chyflwyno ffurflen erbyn y dyddiad cau (gan gynnwys 'cofnod dim / nil return');
- Darparu gwybodaeth anghywir/camarweiniol;
- Methu â chydymffurfio ag ymchwiliad;
- Rhwystro ymchwiliad.

Mae'r canlyniadau o beidio â chydymffurfio â'r Ddeddf yn cynnwys hysbysiadau talu sefydlog (ar gyfer ffurflenni hwyr), ymchwilio i dorri rheolau posibl, erlyn, a dirwyon a/neu garchar.

Yn ogystal, mae cyfyngiadau ar ôl cyflogaeth ar gyfer rhai swyddogion cyhoeddus.

Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd

Sefydlwyd y [Gofrestr Tryloywder](#) fel cynllun ar y cyd rhwng Senedd Ewrop (SE) a'r Comisiwn Ewropeaidd (CE) yn 2011 drwy [Gytundeb Rhyngsefydliadol \(CRS\)](#). Mae'r gofrestr yn gymwys i bob grŵp â diddordeb sy'n gwneud gweithgareddau sydd â'r nod o ddylanwadu ar brosesau deddfu a gweithredu polisiau yn sefydliadau'r UE. Mae cwmplas y gofrestr yn cynnwys pob gweithgaredd (gyda rhai eithriadau³) a wnaed gyda'r nod o ddylanwadu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar lunio neu weithredu polisi a phrosesau penderfynu yn sefydliadau'r UE, waeth ble cânt eu gwneud a'r sianel neu'r cyfrwng cyfathrebu a ddefnyddiwyd.

Mae'r Cytundeb Rhyngsefydliadol rhwng Senedd Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd yn nodi'r rheolau a'r egwyddorion y mae'r Gofrestr Tryloywder yn seiliedig arnynt. Cafodd y Cytundeb cyntaf (a lofnodwyd ym mis Mehefin 2011) ei adolygu ar ôl dwy flynedd. Cafodd y Cytundeb diwygiedig ei fabwysiadu ym mis Ebrill 2014.

Y Gofrestr

Mae'r gofrestr yn wirfoddol ar hyn o bryd, ond mae [cynlluniau i'w gwneud yn orfodol](#). Mae'n adnodd chwiliadwy sydd ar gael yn gyhoeddus ac nid oes ffi i gofrestru. Mae nifer o gymhellion y gellir eu cynnig gan Senedd Ewrop i annog cofrestryddion i gofrestru:

- Hwyluso mynediad i'r safle, ei Aelodau a'u cynorthwyr, ei swyddogion a staff eraill;
- Awdurdod i drefnu neu gyd-gynnal digwyddiadau ar y safle;
- Trosglwyddo gwybodaeth yn haws, gan gynnwys rhestrau postio penodol;
- Cymryd rhan fel siaradwyr mewn gwrandawriadau pwyllgor;
- Nawdd gan Senedd Ewrop.

Gall y cymhellion a gynigir gan y Comisiwn Ewropeaidd i gofrestryddion gynnwys:

³ Amlinellir y gweithgareddau nad ydynt wedi'u cynnwys ym mhwyntiau 9, 10, 11 a 12 o'r Cytundeb Rhyngsefydliadol.

- Mesurau mewn cysylltiad â throsglwyddo gwybodaeth i gofrestryddion wrth lansio ymgynghoriad cyhoeddus;
- Mesurau mewn perthynas â grwpiau arbenigol a chyrrff cynghori eraill;
- Rhestrau postio penodol;
- Nawdd gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Ar adeg ysgrifennu, mae 11,216 o [unigolion cofrestredig ar y gofrestr](#). Mae dadansoddiad o'r sefydliadau yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1: [Ystadegau ar gyfer y Gofrestr Tryloywder \(Europa.eu\)](#)

Ymgynghoriaethau hunangyflogedig	proffesiynol /cwmnïau cyfreithiol/ymgyngorwyr	1301
Lobïwyr mewnol a chymdeithasau masnach/busnes/proffesiynol		5563
Sefydliadau anllywodraethol		2932
Melinau trafod, sefydliadau ymchwil ac academaidd		838
Sefydliadau sy'n cynrychioli eglwysi a chymunedau crefyddol		48
Sefydliadau sy'n cynrychioli awdurdodau lleol, rhanbarthol a threfol, endidau cyhoeddus neu gymysg eraill, ac ati		534
Cyfanswm		11216

Gweinyddu'r gofrestr

Mae Ysgrifenyddiaeth y Cyd-gofrestr Tryloywder (JTRS) yn cynnwys tîm o swyddogion o Senedd Ewrop (SE) a'r Comisiwn Ewropeaidd (CE). Mae'n gweithredu o dan gydgysylltiad Pennaeth yr Uned Tryloywder yn Ysgrifenyddiaeth Cyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd gyda Chyngor Ewrop fel arsylwr. Y JTRS sy'n gyfrifol am reoli'r system o ddydd i ddydd; mae'n cynnig gwasanaethau desg gymorth, yn cyhoeddi ac yn diweddarau canllawiau ar gyfer cofrestru, yn cynnal profion ansawdd data, yn ymdrin â rhybuddion a chwynion a ddaw i law, yn cydlynu gwaith datblygu a chynnal TG ac yn gwneud gweithgareddau codi ymwybyddiaeth. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn cyhoeddi [Adroddiad Blynyddol](#) ar y Gofrestr Tryloywder, ei chynnwys a'r ffordd y caiff ei datblygu.

Gwybodaeth am y cofrestryddion

Mae'n rhaid i gofrestryddion ddarparu ystod eang o wybodaeth:

- Enw'r sefydliad neu'r unigolyn hunangyflogedig;
- Adran cofrestru (math o sefydliad yn ôl categori);
- Manylion cyswllt;
- Manylion y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol a'r person sy'n gyfrifol am gysylltiadau UE;
- Nodau/cylch gwaith y sefydliad;
- Manylion y gweithgareddau penodol a gwmpesir yn y gofrestr (e.e. prif mentrau, polisiau a ffeiliau deddfwriaethol yr UE ac yna gweithgareddau gweithredu polisi, cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu perthnasol/cyfranogiad yn strwythurau a llwyfannau yr UE/grwpiau lefel uchel (CE)/pwyllgorau ymgynghorol/grwpiau arbenigol (CE), rhyng-grwpiau a fforymau diwydiant (SE));
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau a restrir yn y pwynt bwled blaenorol;
- Manylion y bobl a achredwyd i gael mynediad i safle Senedd Ewrop;
- Meysydd o ddiddordeb;
- Aelodaeth a ymlyniad;
- Data ariannol (gan gynnwys amcangyfrif o'r costau blynyddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a gwmpesir gan y gofrestr, a'r wybodaeth ariannol ddiweddaraf ynghylch arian a gafwyd gan sefydliadau'r UE).

Drwy gofrestru, mae sefydliad wedi llofnodi [Cod Ymddygiad](#) y Gofrestr Tryloywder yn awtomatig, sy'n pennu rheolau i bawb sy'n cofrestru ac sy'n sefydlu egwyddorion sylfaenol ar gyfer safonau ymddygiad ym mhob cysylltiad â sefydliadau'r UE.

Torri rheolau a sancsiynau

Mae'r Cytundeb Rhyngsefydliadol yn pennu ystod o fesurau sydd ar gael i'r JTRS mewn achos o ddiffyg cydymffurfio â'r cod ymddygiad. Mae crynodeb yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2: [Mesurau sydd ar gael mewn achos o ddiffyg cydymffurfio â'r cod ymddygiad](#) (o'r Cytundeb Rhyngsefydliadol)

Math o ddiffyg cydymffurfio	Mesur	Cyhoeddi mesur yn y gofrestr	Penderfyniad ffurfiol i wahardd mynediad i eiddo Senedd Ewrop
Diffyg cydymffurfio, wedi'i gywiro ar unwaith	Hysbysiad ysgrifenedig yn cydnabod y ffeithiau a'u cywiro.	Na	Na
Dim cydweithrediad â'r	Tynnu enw oddi ar y	Na	Na

JTRS	gofrestr, tynnu awdurdod i gael mynediad i SE a cholli cymhellion eraill.		
Ymddygiad amhriodol	Tynnu enw oddi ar y gofrestr, tynnu awdurdod i gael mynediad i SE a cholli cymhellion eraill.	Na	Na
Diffyg cydymffurfio dro ar ôl tro ac yn fwriadol neu ymddygiad amhriodol sawl gwaith a/neu achos difrifol o ddiffyg cydymffurfio	<p>a. Tynnu enw oddi ar y gofrestr am flwyddyn, a thynnu awdurdod i gael mynediad i safle SE yn ffurfiol</p> <p>b. Tynnu enw oddi ar y gofrestr am ddwy flynedd, a thynnu awdurdod i gael mynediad i safle SE yn ffurfiol</p>	Ie, yn ôl penderfyniad Ysgrifenyddion Cyffredinol SE a CE.	Ie, yn ôl penderfyniad Coleg y Quaestors.